COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD IAU, 17 HYDREF 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DG Howells – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | RM Granville | DG Howells | RM James |
| B Sedgebeer | SG Smith | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

KL Rowlands, G Thomas, E Venables, SR Vidal a/ac A Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Michael Pitman | Prentis Gweinyddu Busnes |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

168. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Yn absenoldeb y Cyng. E Venables, bod y pwyllgor yn ethol y Cyng. DG Howells yn Gadeirydd y cyfarfod hwn.

(Y Cyng. DG Howells yn y Gadair)

169. DATGAN BUDDIANT

Dim

170. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod 06/06/2019 yn wir ac yn gywir.

171. ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Gofynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a ellid ystyried yr eitem hon olaf, gyda chaniatâd y Cadeirydd, gan fod angen i'r Swyddog Monitro fynd i gyfarfod arall, ond y byddai'n ceisio bod yn bresennol. Cytunodd y Cadeirydd i ystyried yr eitem olaf.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a amlinellai ganfyddiadau Gweithgor y Cyfansoddiad, fu'n adolygu elfennau o'r Cyfansoddiad.

Esboniodd fod y Swyddog Monitro wedi cael cais oddi wrth Aelod Etholedig i adolygu'r Cyfansoddiad. Yn unol ag Erthygl 15 y cyfansoddiad, bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac yn adolygu gweithrediad y Cyfansoddiad, er mwyn sicrhau bod nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael eu gweithredu'n llawn. Bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer unrhyw newidiadau ar sail argymhellion y Swyddog Monitro.

Wrth adolygu'r Cyfansoddiad, gofynnwyd yn benodol am gael ystyried y canlynol:

1) Ailsefydlu'r cyfnod o 5 niwrnod ar gyfer cwestiynau a chynigion, gan fod adnoddau addas bellach ar gael i gyfieithu'n brydlon i'r Gymraeg;

2) Yn dilyn cyflwyniadau a chyhoeddiadau aelodau'r Cabinet, yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr, fod yr Aelodau'n cael cyfle am 15 munud i ofyn cwestiynau nas cyflwynwyd ymlaen llaw;

3) Rhoi tri munud (wedi'i gymryd o reol 3 munud y Pwyllgor Rheoli Datblygu) i'r tair gwrthblaid gael gwneud cyhoeddiadau neu gyflwyniadau gerbron y Cyngor;

4) Amseriad cyfarfodydd y Cyngor

Trafodwyd y pynciau a ganlyn yng nghyfarfodydd Gweithgor y Cyfansoddiad:

- Y cyfnod o amser ar gyfer cwestiynau a chynigion
- Cyhoeddiadau yng Nghyfarfodydd y Cyngor
- Ymateb i Gwestiynau Ysgrifenedig
- Cyhoeddiadau gan 3 Arweinydd y Gwrthbleidiau Mwyaf
- Amseriad Cyfarfodydd y Cyngor
- Y Broses Galw i Mewn
- Cyfnod o Rybudd ar gyfer Cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad y Cabinet a Galw i Mewn
- Cyfnod o Amser ar gyfer Cynnal Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
- Aelodau'n Galw Penderfyniad i Mewn

Ystyriodd y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a wnaed gan Weithgor y Cyfansoddiad.

Cadw at yr un cyfnod o amser ar gyfer cyflwyno cwestiynau a chynigion, sef 10 diwrnod gwaith clir. O ran cyhoeddiadau a wneir yn y Cyngor, argymhelliad y dylid diwygio'r Cyfansoddiad i newid y teitl 'Adroddiad yr Arweinydd' i 'Cyhoeddiadau'r Arweinydd', ac y dylid byrhau'r cyhoeddiadau a wneir gan y Cabinet ar hyn o bryd. Bod holl Aelodau'r Cyngor yn derbyn ymateb i cwestiynau ysgrifenedig 24 awr cyn cyfarfod y Cyngor lle bo'n ymarferol. Y bydd yr ateb wedi'i gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw o'r Cyngor. Y gallai cyhoeddiadau gan Arweinwyr Gwrthbleidiau arwain at ddatganiadau gwleidyddol, ac nid oedd dymuniad i fynd ar drywydd cyhoeddiadau gan Arweinwyr y 3 Gwrthblaid fwyaf. Gan fod y bleidlais electronig a gynhaliwyd ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor ar 24 Gorffennaf 2019 wedi'i cholli, na ddylid ystyried cynnal cyfarfodydd gyda'r nos ymhellach, nes cychwyn y weinyddiaeth nesaf. Dylid ymestyn y cyfnod o rybudd a'r ôl cyhoeddi penderfyniad o'r 3 diwrnod gwaith clir cyfredol i 5 diwrnod gwaith clir cyfredol, er mwyn creu mwy o dryloywder, ac i roi mwy o gyfle i Aelodau'r fainc ôl gael galw penderfyniad i mewn. Cadw'r cyfnod o amser ar gyfer cynnal Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr un peth, sef o fewn 5 diwrnod gwaith clir. Bod unrhyw Aelod, gan gynnwys Cadeirydd, sy'n galw penderfyniad i mewn, wedi'i eithrio o'r broses benderfynu yng nghyfarfod y Pwyllgor hwnnw, ond ei fod yn cael gwahoddiad i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor i gefnogi'r cais i alw penderfyniad i mewn.

Ystyriai Aelod o'r Pwyllgor fod cwestiynau atodol yn aml yn faith ac nad oeddent weithiau'n gysylltiedig â'r cwestiwn gwreiddiol. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, os oedd cwestiwn wedi'i dybio'n amhriodol neu nad oedd yn ymwneud â'r cwestiwn gwreiddiol, y byddai'r Swyddog Monitro a'r Maer yn barnu ei fod yn annerbyniol.

Gofynnodd Aelod a ellid pwysleisio'r uchod ymhlith yr Aelodau er mwyn sicrhau bod cwestiynau a chwestiynau atodol yn fyr a chryno, ac yn ymwneud â'r mater dan sylw. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n adrodd hyn yn ôl i'r Swyddog Monitro.

Gofynnodd y Pwyllgor, mewn perthynas â pharagraff 4.7.2 yn yr adroddiad, am gael gofyn i'r Cyngor a ellid cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 4pm yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r ymchwil a'r gwaith a gyflawnwyd gan y Gweithgor a diolch i'r Swyddog Monitro, y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r Prentis Busnes am eu gwaith wrth gynnal ymchwil ac wrth gefnogi Gweithgor y Cyfansoddiad;

2. Nodi argymhellion y Gweithgor;

3. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo argymhellion Gweithgor y Cyfansoddiad i'w hargymell i'r Cyngor, gan ychwanegu'r canlynol:

(i) mewn perthynas â pharagraff 4.3.9 yr adroddiad, ychwanegu y dylid plismona'r cwestiynau atodol yn gliriach er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r cwestiwn gwreiddiol a'u bod yn fyr a chryno;

(ii) mewn perthynas â pharagraff 4.7.2 yr adroddiad, gofyn am gael cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 4pm yn y dyfodol.

## 172. RHAGLEN DATBLYGU'R AELODAU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a roddai'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch darparu Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Cyngor, a gweithgareddau cysylltiedig. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi pynciau i'w cynnwys ar Raglen Datblygu'r Aelodau ac mewn Sesiynau Briffio Cyn Cyfarfod y Cyngor.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr hyfforddiant datblygu aelodau, Hyfforddiant y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Sesiynau Briffio cyn Cyfarfodydd Cyngor a oedd wedi cael eu darparu ers 6 Mehefin 2019, ac a oedd wedi'u rhestru yn 4.1, 4.2 a 4.3 yn yr adroddiad.

Darparodd amserlen Sesiynau Briffio Cyn Cyfarfod y Cyngor hyd yma, a oedd yn cynnwys:

- 23 Hydref 2019: Cynllun Datblygu Strategol
- 20 Tachwedd 2019: Strategaeth Ynni'r Ardal Leol a Chynllun Ynni Doeth
- 18 Rhagfyr 2019: Newidiadau'r Cwricwlwm Newydd
- 11 Mawrth 2020: Deilliannau Addysg
- System Les a Budd-daliadau - i'w gadarnhau

Dywedodd fod Ionawr/Chwefror wedi'u gadael yn wag yn fwriadol gan mai dyna'r adeg o'r flwyddyn pan fyddai'r gyllideb yn cael ei hystyried. Esboniodd y bu amwysedd ynghylch hyn ar yr amserlen, felly nad oedd unrhyw sesiynau briffio wedi'u cynllunio am y tro.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd amlinelliad o Sesiynau Hyfforddiant y Pwyllgor Rheoli Datblygu a oedd wedi'u hamserlennu, a nodwyd yn adran 4.5 yr adroddiad.

Amlinellodd hefyd sesiynau Hyfforddi'r Aelodau a oedd wedi'u cynnig yn y dyfodol, gan gynnwys:

- 31 Hydref 2019 - Rheoli Galwadau Ffôn Camdriniol ac Ymosodol, Rheoli Gwrthdaro ac Ymwybyddiaeth o Diogelwch Personol
- Defnyddio Mapiau Pontio
- Sgiliau Gofyn Cwestiynau Craffu - I'w chadarnhau
- Sgiliau Cadeirio Craffu - I'w chadarnhau

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r hyfforddiant a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 31 Hydref yn cael ei ddarparu ddwywaith y diwrnod hwnnw, gydag un sesiwn yn cael ei darparu yn y bore, a'r sesiwn honno'n cael ei hailadrodd yn y prynhawn. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod Aelodau a allai fod wedi'i chael hi'n anodd cyrraedd yn y bore yn gallu mynd i sesiwn y prynhawn, ac fel arall.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wrth y Pwyllgor am y Gwasanaeth E-ddysgu a oedd wedi cael ei ddarparu iddynt drwy'r Learning Pool. Dywedodd fod gwaith wedi cael ei gyflawni drwy Rwydwaith Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd / Swyddogion Cefnogi'r Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ddatblygu modiwlau E-ddysgu cenedlaethol i'w darparu drwy Academi Cymru Gyfan. Roedd manylion pellach wedi'u cynnwys yn adran 4.7 yr adroddiad.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch hyfforddiant arfaethedig y System Les a Budd-daliadau, o ran cynnwys yr hyfforddiant hwnnw a'r hyn y byddai disgwyl i Gynghorwyr ei wneud yn ei sgil. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd na fyddai'r hyfforddiant ond yn cael ei ddarparu er gwybodaeth, fel bo modd cyfeirio etholwr i'r gwasanaeth cywir. Pwysleisiodd na fyddai disgwyl i Gynghorwyr roi cyngor ynghylch budd-daliadau, ond dylai fod ganddynt wybodaeth well am y gwasanaethau sydd ar gael er mwyn gallu dweud wrth etholwyr ymhle i gael gwybodaeth bellach.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â'r Rheolwr Budd-daliadau ac Asesiadau Ariannol a gytunai y byddai'n fuddiol cael taflen ffeithiau a rhestr o asiantaethau, ac y gellid darparu'r rhestr honno ymhen amser.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

1. Yn nodi cynnwys yr adroddiad
2. Yn cytuno i ddisgwyl am argymhellion y Pwyllgor Rheoli Datblygu ynghylch Briffiau pellach Cyn Cyfarfodydd y Cyngor a Sesiynau Hyfforddiant Datblygu'r Aelodau pellach.
3. Bod yr aelodau'n cyfeirio unrhyw bynciau ychwanegol ar gyfer briffiau cyn cyfarfodydd Cyngor i sylw'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
4. Bod yr aelodau'n cyfeirio unrhyw bynciau ychwanegol ar gyfer Datblygu'r Aelodau i'w cynnwys ar Raglen Datblygu'r Aelodau i sylw'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
5. Bod yr aelodau'n cyfeirio unrhyw bynciau ychwanegol ar gyfer e-ddysgu i'w cynnwys ar Raglen Datblygu'r Aelodau i sylw'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
6. Bwrw ymlaen â'r Briff Cyn Cyfarfod y Cyngor a gynigiwyd ar y System Les a Budd-daliadau drwy roi taflen ffeithiau i'r Aelodau yn lle hynny ar y mathau o fudd-dal sydd ar gael.

173. <u>GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD Y CYNGOR, Y CABINET A PHWYLLGORAU</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a roddai'r newyddion diweddaraf i'r pwyllgor am drefniadau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau, a gofynnodd am sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch pa gyfarfodydd y dylid eu gwe-ddarlledu.

Hysbysodd y Pwyllgor ynghylch y trefniadau gwe-ddarlledu cyfredol a nodir yn adran 4.2 yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wrth yr Aelodau y byddai Swyddogion, yn ystod cyfnod y contract nesaf, yn ystyried dichonoldeb datrysiadau eraill ar gyfer gwe-ddarlledu, sef drwy Skype a YouTube. Roedd swyddogion o'r Gwasanaethau Democrataidd a'r Adran TGCh wedi ymweld â Chyngor Sir Fynwy i weld sut yr oeddent yn gwe-ddarlledu cyfarfodydd. Dywedodd fod yr opsiwn hwn yn cael ei ystyried ac y byddai'n golygu arbed costau.

Darparodd ystadegau cyfarfodydd a we-ddarlledwyd yn 2018/19. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

| | Dyddiad | Enw'r Cyfarfod | Gwylio Byw | Gwylio Ar Alw | Cyfanswm y Gwylio |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 30-Awst-18 | Pwyllgor Rheoli Datblygu | 38 | 51 | 99 |
| 2 | 17-Medi-18 | Pwyllgor Trosolwg a Craffu Pwnc 3 | 11 | 131 | 142 |
| 3 | 16-Hydref-18 | Pwyllgor Trosolwg a Craffu Pwnc 1 | 0 | 42 | 42 |
| 4 | 18-Hydref-18 | Pwyllgor Trosolwg a Craffu Pwnc 2 | 22 | 47 | 69 |
| 5 | 18-Rhag-18 | Cabinet | 27 | 31 | 58 |
| 6 | 03-Ion-19 | Pwyllgor Rheoli Datblygu | 10 | 28 | 38 |
| 7 | 14-Chwef-19 | Pwyllgor Rheoli Datblygu | 70 | 72 | 142 |
| 8 | 25-Chwef-19 | Pwyllgor Trosolwg a Craffu Pwnc 3 | 6 | 10 | 16 |
| 9 | 18-Mawrth-19 | Pwyllgor Trosolwg a Craffu Pwnc 3 | 10 | 32 | 42 |
| 10 | 19-Mawrth-19 | Pwyllgor Rheoli Datblygu | 55 | 120 | 175 |
| | | **Gwylio Cyfartalog** | **25** | **56** | **82** |
| | | **Cyfanswm y Gwylio** | **249** | **564** | **823** |

Rhestrodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y cyfarfodydd canlynol a oedd wedi cael eu gwe-ddarlledu ar gyfer y flwyddyn 2019/20 hyd yma, gan gynnwys dadansoddiad o'r gwylio:

| | Dyddiad | Enw'r Cyfarfod | Gwylio Byw | Gwylio Ar Alw | Cyfanswm y Gwylio |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 29-Ebrill-19 | Pwyllgor Trosolwg a Craffu Pwnc 1 | 3 | 49 | 52 |
| 2 | 09-Mai-19 | Pwyllgor Rheoli Datblygu | 6 | 29 | 35 |
| 3 | 04-Mehefin-19 | Pwyllgor Trosolwg a Craffu Pwnc 1 | 42 | 64 | 106 |
| 4 | 03-Gorff-19 | Pwyllgor Trosolwg a Craffu Pwnc 2 | 4 | 31 | 35 |
| 5 | 05-Medi-19 | Pwyllgor Trosolwg a Craffu Pwnc 3 | 15 | 52 | 62 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwylio Cyfartalog** | **14** | **45** | **57** |
| **Cyfanswm y Gwylio** | **74** | **225** | **309** |

Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y pwyllgor fod y cyfarfodydd canlynol wedi'u cynnig i'w gwe-ddarlledu hyd fis Mawrth 2020:

- Pwyllgor Rheoli Datblygu - 5 Rhagfyr 2019
- Y Cabinet - 17 Rhagfyr 2019
- Pwyllgor Trosolwg a Craffu Corfforaethol i'w gadarnhau - (Y Gyllideb)

Dywedodd fod cyfarfodydd mis Hydref 2019 a mis Tachwedd 2019 wedi'u hepgor yn fwriadol oherwydd bod trefniant i osod camerâu HD newydd yn fuan ym mis Tachwedd i gymryd lle'r camerâu presennol sydd wedi'u gosod yn Siambr y Cyngor.

Gofynnodd Aelod pwy sy'n penderfynu ar ba gyfarfodydd i'w gwe-ddarlledu. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd mai'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd sy'n dewis cyfarfodydd yn bennaf, ar y sail y gallai'r eitem neu'r eitemau ar agenda'r cyfarfod hwnnw fod o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Esboniodd fod croeso o hyd i Aelodau fynegi sylwadau wrth y Tîm Gwasanaethau Democrataidd ynghylch pa gyfarfodydd y maent am iddynt gael eu gwe-ddarlledu, a rhoddir ystyriaeth i'r sylwadau hynny.

Dywedodd Aelod y gallai newid y term a ddefnyddir i ddisgrifio gwe-ddarlledu ei gwneud hi'n haws i aelodau'r cyhoedd ganfod y ddolen ar y wefan ar gyfer cyfarfodydd sydd wedi'u recordio. Esboniodd nad yw 'gwe-ddarlledu' mewn gwirionedd yn esbonio'r hyn yr ydym yn ei wneud mewn gwirionedd, neu ei bod hi'n bosibl na fydd cynulleidfa hŷn yn deall y term. Ychwanegodd y gallai newid yr enw i 'gweld cyfarfod y Cyngor' neu rywbeth tebyg helpu'r cyhoedd i ddeall yn well. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i fynd ar drywydd hyn.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

1. Yn nodi'r diweddariad ar drefniadau i we-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau fel y manylir yn adran 4 yr adroddiad.
2. Wedi gwneud sylwadau ynghylch y rhestr o gyfarfodydd a gynigir, fel y manylir yn adran 4.4.4 o'r adroddiad, ac wedi mynegi ei farn ynghylch pa gyfarfodydd y dylid eu gwe-ddarlledu yn y dyfodol.
3. Yn gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ystyried datrysiadau eraill ar gyfer gwe-ddarlledu cyfarfodydd, er mwyn sicrhau’r datrysiad mwyaf cost-effeithiol, ac i'w gwneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

174. EITEMAU BRYS

Dim